

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 a Chanllawiau - Drafft

Dychwelwch y ffurflen hon at Lywodraeth Cymru erbyn **2 Medi 2019** fan bellaf.

Y cyfeiriad e-bost ar gyfer ymatebion ac ymholiadau yw:

UnedlaithGymraegWelshLanguageUnit@llyw.cymru

Dyma'r cyfeiriad ar gyfer anfon ymatebion drwy'r post:

Ymgynghoriad ar Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg
Is-adran y Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Mae'r ffurflen hon ar gael i'w lawrlwytho o wefan ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, yma: llyw.cymru/ymgynghoriadau

Eich enw:	Rebecca Williams
Sefydliad (os yn briodol):	UCAC
Cyfeiriad e-bost:	rebecca@ucac.cymru
Rhif ffôn:	01970 639950
Eich cyfeiriad:	UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU

Mae'n bosibl y cyhoeddir ymatebion i ymgynghoriadau ar y we neu mewn adroddiad.

Os byddai'n well gennych i'ch ymateb fod yn ddienw, ticiwch y blwch hwn: ☐

Cwestiwn 1 – Hoffem wybod eich barn ar y cynigion canlynol i:

- (a) ymestyn cyfnod gweithredu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i 10 mlynedd
- (b) Cychwyn y Cynllun nesaf yn 2021 a nodi cynnydd yn ôl y flwyddyn ysgol academaidd

Sylwadau ategol

- (a) Cytunwn â'r cynnig i ymestyn cyfnod gweithredu'r Cynlluniau am y rhesymau a amlinellir yn y ddogfen ymgynghorol.
- (b) Cytunwn mewn egwyddor yn ogystal â'r cynnig i gychwyn y Cynlluniau nesaf ym mis Medi 2021, a'u bod yn seiliedig ar y flwyddyn ysgol.

Fodd bynnag, mae gennym rywfaint o bryder ynghylch y bwlch o ddeunaw mis rhwng diwedd y Cynlluniau presennol ym mis Mawrth 2020 a chychwyn y Cynlluniau newydd ym mis Medi 2021.

Mae'r ddogfen ymgynghorol yn nodi y bydd y Cynlluniau presennol 'yn parhau'n weithredol hyd nes y cymeradwyr y Cynlluniau newydd', ond nid yw'n glir beth yn union yw ystyr hynny, er enghraifft, a gaiff y targedau eu haddasu?

Rhaid gochel rhag cyfnod estynedig o ddiffyg gweithgarwch a ffocws. Mi fydd yr Awdurdodau, wrth reswm, wrthi'n paratoi eu Cynlluniau newydd, ac yn ymgynghori arnynt; ond nid yw hynny gyfystyr â gweithredu ystyrlon i symud tuag at y targedau.

Cwestiwn 2 – Hoffem wybod eich barn ar y cynigion canlynol i:

- (a) dileu'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gynllunio eu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn seiliedig ar ganlyniadau asesiad o'r galw ymysg rhieni
- (b) disodli'r ddyletswydd hon â darpariaeth newydd yn y rheoliadau i awdurdodau lleol osod eu targedau eu hunain yn eu Cynlluniau i gynyddu canran y dysgwyr blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg
- (c) ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw dyledus i ganllawiau Llywodraeth Cymru wrth bennu'r targedau sydd i'w cynnwys mewn Cynllun awdurdod lleol

Sylwadau ategol

- (a) Cytunwn yn gryf â'r cynnig hwn am y rhesymau a amlinellir yn y ddogfen ymgynghorol.
- (b) Cytunwn â'r cynnig hwn; mae'n gwbl synhwyrol i gysylltu'r targedau hyn â thargedau Cymraeg 2050. Cytunwn yn ogystal â'r cynnig mai Llywodraeth Cymru sy'n gosod y fethodoleg ar gyfer sut i gyfrifo targedau, a bod y rheiny wedi'u mynegi fel 'ystod', ond mai'r Awdurdodau Lleol sy'n bennaf gyfrifol am osod y targedau hynny oddi fewn i'r fethodoleg a'r canllawiau, ac yn atebol amdanynt.

Mae gosod data o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) fel y ffynhonnell ar gyfer y targedau yn gwneud synnwyr (1) am ei fod yn osgoi casglu data'n unswydd at y pwrpas hwn, ac felly'n bwysig yng nghyd-destun ymdrechion ehangach i leihau biwrocratiaeth a llwyth gwaith a (2) am ei fod yn debygol o fod yn fwy hirhoedlog nag asesiadau athrawon, ac felly'n cynnig gwell cysondeb dros y tymor hir.

Mae'r egwyddor o grwpio Awdurdodau Lleol ar gyfer pennu targedau yn ymddangos yn rhesymol, er mwyn cydnabod yr ystod eang o gyd-destunau a cheisio sicrhau targedau priodol yn ôl y cyd-destunau hynny.

Pryderwn fod nifer o agweddau o'r fethodoleg nad ydynt yn cael eu disgrifio'n gwbl glir yn y Canllawiau.

Un o'r rhain yw ai un targed yn unig sydd (sef y cynnydd disgwyledig mewn plant Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg yn ardal yr awdurdod lleol) a bod yr elfennau eraill i gyd yn gofyn am 'ddatganiad' a data mwy cyffredinol, neu a oes disgwyl targed ymhob un o'r meysydd a enwir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau - a bod y cwbl wedi'i seilio ar ffigyrau Blwyddyn 1 ym mlwyddyn ysgol 2017/18 fel gwaelodlin? Mae angen bod yn gwbl ddiamwys ynghylch hyn.

Mae Tabl 4 yn peri rhywfaint o ddryswch. Yn gyntaf, nid yw'n glir sut y cyfrifwyd y ffigyrau yng ngholofn 2017/18. Nid yw pob un ohonynt yn edrych fel cyfartaledd na chanolrif o'r ffigyrau ar gyfer y Grŵp fel y'u nodir yn Nhabl 2. Yn ail, a yw'r Grwpiau'n atebol am eu targedau ar y cyd – neu dim ond pob Awdurdod Lleol yn unigol ar gyfer ei dargedau ei hun?

- (c) Cytunwn â'r cynnig hwn; gwaith ar y cyd ar bob lefel fydd y cyrraedd y Miliwn, felly mae'n rhesymegol bod gofyn i'r Awdurdodau Lleol dalu sylw dyledus i ganllawiau Llywodraeth Cymru; bydd hynny'n sicrhau cysondeb yn ogystal.

Cwestiwn 3 – Hoffem wybod eich barn ar:

- (a) y datganiadau newydd sydd wedi'u cynnwys yn Atodlen Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019?
- (b) canllawiau statudol sy'n nodi pa wybodaeth ategol y dylai awdurdodau lleol ei chynnwys yn eu Cynllun?

Sylwadau ategol

- (a) Rydym yn arbennig o falch i weld cyfeiriadau at y Blynyddoedd Cynnar h.y. defnyddio data asesiadau digonolrwydd gofal plant, a'r gofyniad i gynyddu nifer y dysgwyr oedran dosbarth derbyn sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg; bydd hyn yn arbennig o ddylanwadol o ran y niferoedd sy'n dewis derbyn addysg cyfrwng Cymraeg o oedran addysg statudol ymlaen, ac yn rhan gwbl allweddol o'r ymdrechion strategol.

Croesawn y cyfeiriadau yn y Canllawiau at 'gydweithio ag awdurdodau lleol eraill drwy arfer eu swyddogaethau ar y cyd'. Deallwn y rhesymau pam nad oes modd enwi'r consortia yn y rheoliadau eu hunain, er ein bod o'r farn bod y sefyllfa hynny'n gwbl annerbyniol – ac yn rhywbeth i'w ystyried ar gyfer y tymor hirach, mewn perthynas â phob math o agweddau o bolisi addysg.

Mae adrannau 6, 18 a 19 o'r Atodlen yn cyfeirio at y math o gydweithio a grybwyllir uchod. Mae'r rheiny oll yn gwbl dderbyniol a synhwyrol; fodd bynnag awgrymwn

fod cwmpas y cydweithio rhwng awdurdodau lleol ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r meysydd penodol hyn, gan gynnwys meysydd megis trefniadaeth ysgolion, cludiant ac ati. Yn ogystal â'r datganiadau uchod sydd eisoes yn yr Atodlen i'r Rheoliadau, tybed a fyddai'n werth gofyn i'r Awdurdodau adrodd, o bosib mewn ffordd benagored, ynghylch y ffyrdd y maent yn cydweithio gydag Awdurdodau Lleol eraill i ymgynghraedd at y targedau, ac i sicrhau bod hynny'n cael ei wneud mewn modd *strategol* sy'n cynnwys ystyriaethau traws-ffiniol (e.e. peidio sefydlu darpariaeth newydd a fydd yn 'cystadlu' am yr un disgyblion), sy'n gwneud y mwyaf o unrhyw adnoddau (dynol/isadeiledd), ac sy'n osgoi dyblygu.

Teimla UCAC y byddai adran 15 yr Atodlen yn elwa o gael ei aralleirio. Cytunwn yn llwyr â'r bwriad, sef i gynyddu cyfleoedd i siarad Cymraeg. Fodd bynnag, nid ydym yn siŵr mai 'gwella safonau addysg cyfrwng Cymraeg' yw'r ffordd orau o fynegi diben gwneud hynny, gan ei fod yn awgrymu bod gwendid o ran safon ar hyn o bryd. Awgrymwn yn hytrach rhywbeth fel 'i wella cyfleoedd personau sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg neu sy'n dysgu'r Gymraeg fel pwnc i gyrraedd rhuglder' neu 'i wella'r deilliannau ieithyddol ar gyfer personau sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg neu sy'n dysgu'r Gymraeg fel pwnc'.

Croesawn yn fawr iawn yr adran sy'n ymwneud ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, a gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae'n bwysig bod atebolrwydd cyson ynghylch hyn drwy'r Cynlluniau Strategol.

Rydym yn falch bod Adran 17 yn ymwneud â chynllunio'r gweithlu addysg. Awgrymwn yn gryf y dylid ymestyn y gofyniad i gynnwys nid yn unig 'ysgolion a gynhelir yn ei ardal' ond gweithlu'r blynyddoedd cynnar yn ogystal.

Mae gennym gwestiwn ynghylch union ystyr/bwriad 18(b) pan mae'n cyfeirio at wella 'sgiliau addysgu'. A yw'n golygu y dylai'r Awdurdodau Lleol, a'r consortia rhanbarthol, fod yn sicrhau bod unrhyw ddatblygiad proffesiynol yn cael ei ddarparu yn y ddwy iaith? Neu a yw'n cyfeirio at 'sgiliau addysgu' mewn perthynas â dysgu'r Gymraeg fel iaith, a/neu addysgeg cyfrwng Cymraeg? Mae'r amwysedd hyn yn rhywbeth i'w osgoi, ac efallai bod angen arall-eirio i wneud y bwriad yn gliriach.

Yn yr un modd, nid yw bwriad Adran 19 yn gwbl glir i ni.

Mae Adran 20 yn adlewyrchiad o'r gofyniad o fewn Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. Awgrymwn y dylid ychwanegu 'gan gynnwys mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol eraill' a 'gan gynnwys i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol'.

- (b) Cytunwn yn llwyr mai'r Canllawiau yw'r lle cywir i nodi'r wybodaeth ategol sy'n ofynnol, nid yn y Rheoliadau eu hunain; bydd hynny'n sicrhau bod modd addasu yn ôl yr angen.

Sylwn fod y Canllawiau'n mynegi'r gofyniadau am wybodaeth orfodol – hynny yw, y rhai sydd wedi'u cynnwys yn yr Atodlen i'r Rheoliadau – mewn ffurf o eiriau ychydig yn wahanol i'r geiriad yn yr Atodlen. Nid ydym yn sicr a yw hynny'n fwriadol, er mwyn ei drosi i iaith ychydig yn llai 'cyfreithiol' ei natur, neu a yw hynny am ei fod wedi cael ei gyfieithu o'r newydd gan gyfieithydd gwahanol. Teimlwn, er mwyn cysondeb, ac er mwyn osgoi unrhyw fath o amwysedd neu gamddealltwriaeth y dylid cadw mor agos ag sy'n rhesymol at eiriad y gofynion yn yr Atodlen. Nodwn isod rai mannau ble mae'r gwahaniaeth yn y geiriad yn broblematig.

Nodwn fod pob elfen o ofyniadau'r Atodlen yn cael eu hadlewyrchu yn y Canllawiau, dan y pennawd 'Deilliannau Cynlluniau', heblaw am:

- adrannau 1 a 2: sef y targed ei hun, a sut mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu cyflawni'r cynnydd disgwyledig; nid yw'n gwbl glir ble yn y Cynllun y dylid darparu'r wybodaeth hon (neu ai'r bwriad yw bod y cynnydd yn digwydd yn sgil y saith Deiliant?)
- adran 8 sy'n ymwneud â chydweithio â'r Fforwm Cynllunio Cymraeg mewn Addysg; efallai bod hynny'n fwriadol am nad yw'n gorwedd yn gyffyrddus gydag unrhyw un o'r Deilliannau'n benodol?

Mae'r uchod yn gofyn cwestiwn ynghylch y cydberthynas rhwng gofynion yr Atodlen a gofynion y Canllawiau, ac felly ynghylch fformat a threfn y Cynllun ei hun. Awgrymw'n yn gryf y byddai'n fanteisiol i sicrhau eglurder ynghylch cynnwys/fformat/trefn y Cynllun (o bosib ar ffurf templed?) sy'n cysoni rhwng yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn:

- Adran '7. Ffurf a chynnwys y Cynllun' yn y Canllawiau
- Yr Atodlen i'r Rheoliadau
- Adran '11. Deilliannau cynlluniau' yn y Canllawiau

Manylwn isod ar elfennau penodol o'r wybodaeth ategol y mae disgwyl i awdurdodau lleol ei chynnwys:

i. Mwy o blant meithrin/3 oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

- Mae llawer o elfennau pwysig yn yr adran hon, ond teimlwn y byddai modd eu mynegi'n llawer mwy cryno - mae'n teimlo'n ailadroddus ar hyn o bryd, ac mi allai hynny arwain at Gynlluniau llafurus a llai pwrpasol nag y byddai rhywun yn dymuno.

Un ffordd o grynhoi fyddai i restru un 'gofyniad' gydag enghreifftiau o agweddau o'r gofyniad hwnnw (neu eu cynnwys yn yr 'Ystyriaethau Cynllunio), yn hytrach na rhestr o ofyniadau ar wahân. Ar hyn o bryd, mae o leiaf pedwar o'r gofyniadau, yn ogystal â sawl un o'r Ystyriaethau Cynllunio yn ymwneud â darparu gwybodaeth i rieni.

- Mae rhai o'r gofyniadau yn teimlo'n lletchwith yn yr adran hon, ac yn teimlo fel petaent yn perthyn yn fwy naturiol dan un o'r Deilliannau eraill.

Er enghraifft, mae'n *ofynnol* i adrodd am drefniadau cludiant mewn perthynas â hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg dan adran 20 o'r Atodlen i'r Rheoliadau. Felly mae'n ymddangos yn rhyfedd i'w gynnwys yn y rhestr o wybodaeth y *dylid* ei darparu fan hyn.

Mae'n ymddangos yn fwy rhyfedd byth i'w gynnwys dan y deiliant hwn gan nad yw cludiant i ddysgwyr yn gyffredinol berthnasol i blant meithrin/3 oed. Mae'n berthnasol, wrth reswm, i ddewis rhieni o ran trosglwyddo o addysg feithrin i addysg statudol. Os am gadw'r cyfeiriad at gludiant yn yr adran hon, efallai bod angen gwneud y cyd-destun hynny'n gliriach. Mewn gwirionedd, mae dwy agwedd i hyn, sef - fel y rhestrir yn y Canllawiau drafft - yr angen i sicrhau bod polisïau'r Awdurdod o ran cludiant yn hyrwyddo mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg, ac yn ail, y rheidwydd i roi gwybodaeth i rieni am y trefniadau cludiant wrth iddynt ystyried trosglwyddo i addysg statudol; efallai mai'r ail sy'n fwy perthnasol yma, a bod y cyntaf yn perthyn yn fwy naturiol mewn adran arall.

Efallai bod modd hepgor ‘a hyfforddiant’ gan mai addysg feithrin/dechrau addysg statudol sydd dan sylw yma.

Yn yr Ystyriaeth Gynllunio, nid yw’n gwbl glir beth yw’r ‘ddau faes polisi’ y cyfeirir atynt – cludiant, a beth arall?

Enghraifft arall yw: Cynyddu capasiti yn y sector cyfrwng Cymraeg drwy’r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae gofyniad statudol i adrodd ar hyn yn yr Atodlen i’r Rheoliadau. Felly, os am ei gynnwys fel eitem y *dylid* adrodd yn ei chylch dan bennawd y deiliant meithrin/3 oed, oni fyddai’n fanteisiol pwysleisio’r angen i sicrhau darpariaeth *feithrin* yng nghyd-destun unrhyw brosiectau cyfalaf newydd, e.e. gofod pwrpasol ar gyfer Dosbarth Meithrin neu Gylch Meithrin mewn unrhyw adeilad newydd ar gyfer ysgol gynradd neu ysgol syth-drwyddo (a hynny, wrth reswm, yng nghyd-destun trafodaethau gydag unrhyw ddarpariaeth feithrin leol berthnasol sydd eisoes yn bodoli)?

Tybed, yn ogystal â Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, a fyddai’n briodol i grybwyll ‘unrhyw gyllid cyfalaf arall’? Mi fyddai hynny’n cwmpasu cyfleoedd ychwanegol sy’n codi o dro i dro megis yr elfen gyfalaf o’r grant ar gyfer lleihau dosbarthiadau Cyfnod Sylfaen.

Bydd angen penderfynu ai o dan un Deiliant penodol y gofynnir y cwestiwn ynghylch cynlluniau cyfalaf (ac os felly, p’un o’r Deilliannau sydd fwyaf priodol), neu a oes mantais gofyn i Awdurdodau adrodd ar gynlluniau cyfalaf dan sawl Deiliant, yn dibynnu ar natur a diben y datblygiad penodol dan sylw.

- Efallai y bydd ystyr ‘lleoedd N2 a ariennir’ yn glir i swyddogion Awdurdodau Lleol, ond nid yw’n derm cyfarwydd yn fwy cyffredinol. Er mwyn tryloywder mwy cyffredinol, efallai dylid ystyried defnyddio geiriad mwy disgrifiadol/hunan-esboniadol.
- A oes angen ystyried cyfeirio at y Cynnig Gofal Plant yn unrhyw le yn yr adran hon? A oes unrhyw fodd o ddefnyddio’r Cynnig (naill ai’r cyllid, neu’r wybodaeth a ddarperir i rieni) i hyrwyddo addysg feithrin/3 oed cyfrwng Cymraeg?
- Awgrymwn yn gryf bod angen cyfeiriad at ddatblygu a chynyddu’r gweithlu cyfrwng Cymraeg yn y sector meithrin.
- Yn sgil y sylwadau uchod ynghylch dyblygu, ac ynghylch ble mae gwahanol elfennau’n perthyn yn rhesymegol, awgrymwn fod angen penderfynu – er mwyn bod yn glir ynghylch yr eitemau o wybodaeth a restrir yn y Canllawiau fel rhai y ‘dylid’ ei darparu - a yw’r Deiliant hwn yn ymwneud yn benodol ag addysg meithrin/3 oed cyfrwng Cymraeg, neu a yw’n cwmpasu pontio i addysg statudol. Efallai bod pontio i addysg statudol yn gorwedd yn fwy naturiol gyda’r Deiliant nesaf, sef sicrhau bod mwy o blant dosbarth derbyn/5 oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym o’r farn y byddai penderfyniad clir ynghylch hynny’n torri lawr yn sylweddol ar y dyblygu, ac yn caniatáu ffocws cliriach ar gyfer pob Deiliant.

ii. Mwy o blant Dosbarth Derbyn/5 oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

- Fel y rydym wedi nodi uchod mewn perthynas â’r gofyniadau yn yr Atodlen i’r Rheoliadau ynghylch cydweithio rhwng Awdurdodau Lleol, rydym o’r farn y byddai’n fanteisiol gofyn i’r Awdurdodau adrodd ar, nid yn unig y trafodaethau/cydweithio rhyngddynt ynghylch ‘sicrhau parhad

o ran y trefniadau ar gyfer pobl sy'n manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg', ond yn ogystal, sut maent yn sicrhau bod eu trefniadau ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn wirioneddol strategol - nid yn unig o fewn ffiniau'r Awdurdod, ond gan gymryd i ystyriaeth trefniadaeth ysgolion a chynlluniau ar gyfer datblygu mewn Awdurdodau cyfagos, er enghraifft, er mwyn osgoi sefydlu darpariaeth newydd a fydd yn 'cystadlu' am yr un disgyblion.

- Mae'r gofyniadau ynghylch rhoi/rhannu/gwneud y defnydd gorau o wybodaeth yn ail-adroddus, ac hefyd yn dyblygu gofyniadau yn y Deiliant blaenorol; awgrymw'n fod modd crynhoi'r gofyniadau hyn mewn un man i leihau ar nifer y gofyniadau, ac er mwyn sicrhau bod ffocws cliriach.
- Croesawn y gofyniad i adrodd ynghylch y ddarpariaeth ar gyfer hwyrddyfodiaid, a sut darperir gwybodaeth amdani. Mae hon yn debygol o fod yn faes pwysig iawn ar gyfer cynyddu'r niferoedd sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg, ac yn faes ble mae potensial am dwf sylweddol.
- Dan y pennawd 'Dylai'r cynllun hefyd gynnwys y canlynol', teimlwn fod y pwynt bwled cyntaf yn gyffredinol a phenagored iawn, a bod nifer o'r gofyniadau blaenorol (a dilynol) yn cwrdd â'r wybodaeth y gellid ei rhestru yma - ac felly bod perygl o greu Cynlluniau/Adroddiadau ail-adroddus. Mae'r ail bwynt bwled dan y pennawd hwn yn ymddangos yn eithriadol o debyg ei gynnwys i'r pwynt bwled yn union cyn y pennawd.
- Ar gyfer y data allweddol, a oes angen gofyn am niferoedd a *chanrannau*? A oes eglurder ynghylch beth yn union a olygir wrth 'addysg ddwyieithog' yn y cyd-destun hwn? Byddai unrhyw amwysedd yn hynny o beth yn gallu arwain at ddiffyg data clir, dibynadwy a chymharol.
- Ystyriaeth Gynllunio CYBLD – mae dyddiad penodol ar gyfer y Cyfrifiad sy'n cael ei nodi mewn 'Nodiadau cwblhau technegol' gan Lywodraeth Cymru, felly ni ddylai bod angen gofyn y cwestiwn hwn. Yn yr un modd, bydd y CYBLD ei hun yn nodi p'un a oes angen nodi'r nifer a'r ganran.

iii. Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall

iv. Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg

v. Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol

Fel sydd wedi'i nodi uchod, mae gennym bryder ynghylch geiriad y gofyniad sy'n cyplysu 'cynnydd yn y cyfleoedd i siarad Cymraeg' gyda 'gwella safonau addysg cyfrwng Cymraeg'. Teimlwn y byddai ei gysylltu gyda 'cynorthwyo i gyrraedd rhuglder' neu 'gwella deilliannau' yn fwy addas.

Yn yr Ystyriaeth Gynllunio gyntaf, at beth yn benodol mae 'strategaeth hyrwyddo' yn cyfeirio?

Sylwn fod anghysondeb rhwng:

- Adran 15 yr Atodlen i'r Rheoliadau: 'sut bydd yr awdurdod lleol yn gwella safonau addysg cyfrwng Cymraeg drwy gynyddu'r cyfleoedd i bersonau siarad Cymraeg mewn unrhyw ysgol a gynhelir ganddo' – mae hynny ychydig yn amwys ynghylch a yw'n golygu cyfleoedd o fewn yr ysgol, neu'n cyfeirio at bersonau 'mewn unrhyw ysgol' ond cyfleoedd mwy cyffredinol, o fewn a *thu hwnt* i'r dosbarth/ysgol
- y Deiliant yn y Canllawiau: 'Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol *yn yr ysgol*'
- y templed ar gyfer y Cynlluniau Gwaith Blynnyddol: 'Mwy o gyfleoedd i fyfyrwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol *y tu allan i'r ystafell ddosbarth*' - mi allai hynny gael ei ddehongli fel cyfleoedd o fewn yr ysgol (ond tu allan i'r ystafell ddosbarth) neu gyfleoedd y tu hwnt i'r ysgol.

Mae hynny'n atgyfnerthu ein sylw uchod ynghylch yr angen am gysondeb geiriad ar draws y gwahanol ddogfennau.

vi. Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag ADY yn unol â'r Ddeddf ADY a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Pryderwn yn fawr fod yr elfen o adran 16 o'r Atodlen i'r Rheoliadau sy'n cyfeirio at 'cynllunio'r gweithlu o fewn y sector anghenion dysgu ychwanegol' wedi cael ei his-raddio, yn y Canllawiau, o fod yn ofyniad y mae'n *rhaid* adrodd arno, i un y *dylid* adrodd arno. Yn sgil hynny, nid yw'r gofyniad ynghylch cynllunio'r gweithlu ADY cyfrwng Cymraeg wedi'i gynnwys yn y templed ar gyfer y Cynlluniau Gwaith Blynnyddol. Mae cynllunio'n rhagweithiol i ddatblygu'r gweithlu ADY cyfrwng Cymraeg yn *gwbl greiddiol* i wella ac ehangu'r ddarpariaeth, ac i sicrhau bod anghenion a dymuniadau dysgwyr ag ADY yn cael eu diwallu a'u parchu, felly'n mae'n rhaid sicrhau'r lefel gywir o atebolrwydd yn ei gylch – a chysondeb ar draws y gwahanol ddogfennau perthnasol.

Yn yr Ystyriaeth Gynllunio sy'n ymwneud ag adnoddau dysgu, mi fyddai'n bendant yn fuddiol cynnwys cyfeiriad at adnoddau diagnostig cyfrwng Cymraeg yn ogystal. Mae prinder adnoddau diagnostig pwrpasol (a chyfredol) yn y Gymraeg yn achosi problemau gwirioneddol i ddysgwyr ag ADY a'u teuluoedd, ac i ysgolion ac Awdurdodau Lleol wrth geisio pennu'r anghenion a'r ddarpariaeth briodol.

Awgrymwn y gallai fod yn fuddiol cynnwys elfen ychwanegol yn yr adran hon sy'n ymwneud â sicrhau bod teuluoedd yn derbyn cyngor dibynadwy (ac felly bod y rhannau priodol o'r gweithlu wedi'u hyfforddi'n ddigonol), er mwyn sicrhau nad yw teuluoedd sydd â phlant ag ADY yn cael eu cyfeirio at y sector cyfrwng Saesneg ar sail rhagdybiaethau di-sail ynghylch galluoedd ieithyddol y plant hynny a/neu ynghylch yr hyn 'fyddai orau iddynt' (arfer sydd wedi bod yn gyffredin iawn dros flynyddoedd lawer).

vii. Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg

Fel y nodwyd uchod, nid ydym yn gwbl glir ynghylch y bwriad y tu ôl i'r geiriad 'Gwella sgiliau addysgu'r athrawon a'r gweithwyr cymorth dysgu hynny sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg'. A yw'n golygu sicrhau bod unrhyw ddatblygiad proffesiynol yn cael ei ddarparu yn y ddwy iaith? Neu a yw'n cyfeirio at 'sgiliau addysgu' mewn perthynas â dysgu'r Gymraeg fel iaith, a/neu addysgeg cyfrwng Cymraeg?

Yn yr un modd, nid yw bwriad y gofyniad sy'n cyfateb i adran 19 yr Atodlen i'r Rheoliadau yn gwbl glir i ni. Nid ydym ychwaith yn gwbl sicr ei fod yn perthyn dan y Deilliant hwn gan nad yw'n glir ei fod yn ymwneud â chynyddu nifer y staff sy'n gallu addysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg.

Croesawn y gofyniadau am wybodaeth ynghylch cyflenwad digonol o benaethiaid a gweithwyr cymorth dysgu, yn ogystal â'r cyfeiriadau at y defnydd o ddata sy'n deillio'r o Gyfrifiad y Gweithlu Addysg.

Rydym wedi awgrymu dan Ddeilliant 1 uchod (plant meithrin/3 oed) y dylid cynnwys gofyniad am wybodaeth ynghylch datblygu a chynyddu maint y gweithlu cyfrwng Cymraeg. Os nad yw'n cael ei gynnwys yn y fan honno, mi fyddai cyfle i'w gynnwys fan hyn.

Cwestiwn 4 – Hoffem wybod eich barn ar y cynigion canlynol i:

(a) ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adolygu eu Cynlluniau bob blwyddyn a chyflwyno adroddiad cynnydd blynyddol i Weinidogion Cymru yn seiliedig ar yr adolygiad?

(b) y gofyniad i awdurdodau lleol gyflwyno eu Cynllun diwygiedig i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo o fewn 4 mis i'r adolygiad os yw'r awdurdod lleol yn barnu ei bod yn angenrheidiol diwygio'r Cynllun?

Sylwadau ategol

(a) Cytunwn â'r cynnig. O ymestyn cyfnod y Cynllun i ddeng mlynedd, rhaid sicrhau bod gweithredu parhaus, a'r cyfle i addasu mewn da bryd i unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau i roi'r cyfle posib i gyrraedd y targedau.

Cytunwn yn ogystal mai crynodeb o gynnydd yn erbyn y targedau yw'r sail fwyaf pwrpasol ar gyfer yr adroddiadau blynyddol.

Mae rhoi rôl benodol i'r Fforymau Cynllunio'r Gymraeg mewn Addysg mewn perthynas â'r adolygiad ac adroddiad blynyddol yn bendant yn gymeradwy, fel y mae'r gofyniad i ymgynghori â gwahanol randdeiliaid perthnasol.

O ran y rhestr o 'bersonau rhagnodedig' i ymgynghori â nhw, gofynnwn a yw ystyr 'darparwyr hyfforddiant y gweithlu addysg' (sef Rheoliad 8(1)(d)) yn ddigon clir? Nid yw wedi'i ddiffinio yn Rheoliad 2: Dehongli, ac mi allai gwmpasu ystod eang iawn o gyrff. Tybed ai'r bwriad fan hyn yw darparwyr Addysg Gychwynnol Athrawon? Neu efallai y consortia rhanbarthol? Teimlwn y byddai'n werth bod yn gliriach ac yn fwy penodol, naill ai trwy addasu 8(1)(d) neu trwy ychwanegu at yr adran Dehongli.

Yn y Canllawiau, teimlwn y dylid cryfhau o 'gallai' i 'dylai' y gofyniad i gyhoeddi cynlluniau gwaith blynyddol, adroddiadau cynnydd blynyddol. Ni welwn unrhyw reswm dros beidio â chyhoeddi'r dogfennau hyn – mater o atebolrwydd cyhoeddus yw hynny - ac o ganlyniad ni welwn unrhyw reswm dros beidio creu gofyniad clir i'w cyhoeddi.

Yn Adran 'Ffurf a chynnwys y Cynllun', pwynt bwled 4, efallai y dylid ymhelaethu ar beth yw ystyr '106'.

(b) Cytunwn â'r cynigion o ran Cynlluniau diwygiedig, ac mae'r amserlenni a amlinellir yn ymddangos yn rhesymol. Mae gennym bryder ynghylch brawddeg yn y

ddogfen ymgynghorol a'r Canllawiau sy'n enwi 'cyfyngiadau cyllidebol' fel ffactor a allai amharu ar hynt y Cynllun gwreiddiol. Nid ydym yn gwadu bod cyfyngiadau cyllidebol difrifol yn wynebu Awdurdodau Lleol ac ysgolion fel ei gilydd, fodd bynnag, teimlwn mai cam gwag fyddai caniatáu – a hyd yn oed awgrymu – bod hynny'n sail i gyfiawnhau lleihau'r uchelgais.

Cwestiwn 5 – A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar rheoliadau drafft 2019 a'r canllawiau statudol?

Sylwadau ategol

Awgrymw'n ychwanegu'r canlynol at Adran 9 o'r Canllawiau, 'Cysondeb â deddfwriaeth a meysydd polisi perthnasol':

- Anghenion Dysgu Ychwanegol/Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
- Cludiant (Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008

Yn Adran 10 o'r Canllawiau, 'Defnyddio data addysg i gefnogi gwaith cynllunio', awgrymw'n ychwanegu cyfeiriad at Gyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY) i'r rhestr enghreifftiol.

Cwestiwn 6 – Hoffem wybod eich barn ar ein dull gweithredu ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol? A oes gennych unrhyw sylwadau ar y costau a amlinellir ar gyfer yr opsiynau neu unrhyw sylwadau ar y manteision a'r anfanteision a nodwyd ar gyfer y naill opsiwn a'r llall?

Sylwadau ategol

Nodwn fod paragraff 2.30 yn cyfeirio at 'adroddiad monitro blynyddol' ac 'adroddiad cynnydd ar y cam pum mlynedd.' Nid yw hynny'n cydgordio gyda'r cynigion, sy'n gofyn am adroddiad cynnydd blynyddol. Fodd bynnag, nid yw hynny'n amharu ar yr asesiad o safbwynt cymharu costau Opsiwn 1 ac Opsiwn 2.

Cwestiwn 7 – Hoffem wybod eich barn ar ein dull gweithredu ar gyfer yr Asesiadau Effaith? Byddem yn falch o glywed eich safbwynt, yn benodol, ar yr effeithiau tebygol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig.

Sylwadau ategol

Mae Adran 2.4 Prawfesur Gwledig yn datgan bod 'Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu trefniadau teithio addas i ddisgyblion sy'n dymuno cael addysg cyfrwng Cymraeg.' Mi fyddem yn llawenhau'n fawr petai hynny'n wir, ond mae'r datganiad yn anghywir. Y gofyniad yw:

"Rhaid i bob awdurdod lleol a Gweinidogion Cymru hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg pan fyddant yn arfer swyddogaethau o dan y Mesur hwn." (Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008; Adran 10)

Ac ystyr ymarferol hynny yw bod disgrisiwn gan Awdurdodau Lleol i ddarparu cludiant ai peidio. Nid yw addysg cyfrwng Cymraeg yn rhan o'r diffiniad o'r 'ysgol

addas agosaf’ – fel y dylai fod er mwyn ‘sichrau cydraddoldeb o ran y gallu i gael addysg cyfrwng Cymraeg’ fel y mae’r Asesiad Effaith Integredig yn dweud. Y gwirionedd yw *nad oes cydraddoldeb wedi’i warantu yn hyn o beth.*

Yn yr Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant, nodir dan bennawd ‘Effeithio ar fywydau plant yn negyddol’ y ffaith y bydd ‘achosion mewn rhai ardaloedd lle bydd plant ag anghenion dysgu ychwanegol difrifol yn ei chael hi’n anodd cael gafael ar gymorth arbenigol drwy gyfrwng y Gymraeg’. Dadleuwn nad yw’r sefyllfa honno’n codi o ganlyniad i’r cynigion; i’r gwrthwyneb, mae’n ddisgrifiad o’r sefyllfa gyfredol y mae’r cynnig yn ceisio mynd i’r afael â hi. Felly nid ydym yn cytuno ei fod yn sgil-effaith negyddol ar hawliau plant.

Mae’r Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi yn yr adran naratif bod ‘effaith negyddol fach ar bobl mewn grwpiau gwarchodedig a’r rhai sy’n byw mewn cartrefi incwm isel’ – ond nid oes sôn am yr effeithiau negyddol hyn yn y tabl, nac unrhyw le arall yn yr Asesiad.

Mae’r asesiad hwn, fel y mae’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn cyfeirio at ‘adolygiad hanner ffordd’ – rhywbeth nad yw’n gynwysedig yn y cynnig.

Cwestiwn 8 – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai’r Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

Beth fyddai’r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

--

Cwestiwn 9 – Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig [neu’r opsiynau, neu’r Cynllun arfaethedig, neu’r camau gweithredu arfaethedig]:

- i) fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg
- ii) fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

Sylwadau ategol

Yr un newid fyddai’n cryfhau effeithiau cadarnhaol y cynigion fyddai diwygio Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 i sichrau bod hawl gan ddysgwyr i gael cludiant am ddim i addysg cyfrwng Cymraeg ar yr un telerau â’r hawl cyffredinol yn y Mesur. Gellid gwneud hynny drwy sichrau bod ysgol/addysg cyfrwng Cymraeg yn rhan o ddiffiniad yr ‘ysgol addas agosaf’.

Mi fyddai hynny yn dileu rhwystr sylweddol i ddysgwyr a’u teuluoedd, yn dileu’r ansicrwydd sy’n dod yn sgil hawl sydd ar ddisgresiwn Awdurdod Lleol, ac yn sichrau

bod hawl gwirioneddol gyfartal gan ddysgwyr i gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg.

Cwestiwn 10 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Sylwadau ategol